At: Swyddogion Cyfrifol Cyrff Dyfarnu Cydnabyddedig

19 Mai 2020

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Newidiadau i Amod A2 a'n Meini Prawf Cydnabod - Sefydliad yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) neu'r Ardal Fasnach Rydd Ewropeaidd (EFTA)

Rydym yn ysgrifennu i'ch hysbysu ein bod heddiw wedi cyhoeddi ein Meini Prawf Cydnabod diwygiedig ("Meini Prawf") ac Amod A2 o'n Hamodau Cydnabod Safonol ("Amodau").

Fel yr esboniwyd gennym yn ein llythyr dyddiedig 31 Ionawr 2020, bwriad y newidiadau hyn yw cwmpasu'r cyfnod trosglwyddo yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd a chyflwyno unrhyw gytundebau newydd.

Bydd y newidiadau yn golygu y bydd yn ofynnol i gyrff dyfarnu cydnabyddedig sicrhau eu bod bob amser yn preswylio fel arfer, neu fod ganddynt bresenoldeb sylweddol yn y DU, Gibraltar neu eu bod yn aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Ardal Fasnach Rydd Ewropeaidd. Yn yr un modd, bydd angen i unrhyw gorff dyfarnu sy'n ceisio cydnabyddiaeth ddangos ei fod yn gallu bodloni'r Meini Prawf hyn.

Gwnaethom ymgysylltu â chi ar ein newidiadau arfaethedig yn ystod mis Chwefror, gan ofyn am eich barn ac unrhyw adborth ar effeithiau. Cawsom dri ymateb - pob un yn gefnogol i'r newidiadau arfaethedig, gydag un yn gofyn am eglurhad ychwanegol ar ddau fater. Darperir gwybodaeth am y materion hyn yn yr adroddiad penderfyniadau, sy'n cael ei gyhoeddi heddiw, ynghyd â'r Meini Prawf a'r Amodau diwygiedig.

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.cymwysteraucymru.org

Gellir gweld copi o'r Meini Prawf a'r Amodau ar ein gwefan, a bydd y rhain yn dod i rym o'r dyddiad cyhoeddi. Byddwn yn parhau i adolygu hyn nes bydd unrhyw gytundebau yn y dyfodol yn datblygu. Os oes gennych unrhyw sylwadau, cysylltwch â polisi@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir,

Jo Richards
Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio